



## SIARTER MYFYRWYR

Dyddiad Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:	Mehefin 2019
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg:	Mehefin 2019
Cymeradwywyd:	Tîm Rheoli Corfforaethol
Dyddiad Cymeradwyo:	Gorffennaf 2019
Awdur:	Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr)
Dyddiad Adolygu:	Awst 2021

Cyhoeddwyd ar:	Y Wefan (✓)	Y Fewnrwyd (✓)	Y Porth Dysgwyr (✓)
	✓	✓	✓

**Ar gael mewn ffont mawr a fformatiau eraill ar gais**

Efallai na fydd y copi hwn yn gyfredol os caiff ei argraffu

# COLEG GWENT

## Siarter Myfyrwyr

### DATGANIAD POLISI

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i ddarparu addysg bellach a chyfleoedd hyfforddi o'r radd flaenaf i bawb.

#### Golyga'r ymrwymiad hwn fod gennych yr hawl i gael y canlynol:

- Cyfres o werthoedd ac ymddygiadau craidd, fel y nodir yn ein Cod Ymddygiad
- Amrywiaeth cynhwysfawr o gyrsiau
- Gwybodaeth, Cyngor, Canllawiau a chymorth i gwrdd â'ch anghenion unigol
- Cydnabyddiaeth gadarnhaol o'r hyn a gyflawnir

#### Caiff hyn ei gyflawni mewn perthynas â'ch:

- Cymwysterau presennol
- Cynlluniau gyrfa
- Amgylchiadau personol

#### Mynediad at ein hadnoddau, a fydd yn cynnwys:

- Staff addysgu a staff cymorth arbenigol
- Adeiladau addysgu arbenigol
- Hybu iechyd a llesiant
- Arweiniad a chwnsela cyfrinachol
- Cymorth sesiynau tiwtorial
- Cyfoethogi

**Gwneir yr ymrwymiad hwn ni waeth be fo'r anawsterau dysgu a/neu'r anabledd**

## **DIBEN A CHWMPAS**

### **Mae Siarter Myfyrwyr Coleg Gwent yn amlinellu'r canlynol:**

- Y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr yn cynnwys, lle y bo hynny'n briodol, ddysgwyr Addysg Gymunedol a Seiliedig ar Waith.
- Mae hefyd yn nodi'r ymrwymiad a ddisgwyliwn yn ôl gennych chi.

### **Mae'n cynnwys cyfres o addewidion yn ymwneud â'r canlynol:**

- Dysgwyr
- Cyflogwyr
- Y gymuned leol
- Disgwyliadau
- Gweithdrefnau

### **Mae'n ceisio:**

- Eich cymorth i wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau a ddarparwn ichi.
- Eich cefnogaeth i'n helpu i fodloni eich anghenion, trwy gyrraedd safonau arbennig, e.e. patrymau mynychu rheolaidd a chyson fel y nodir yn y Polisi Mynychu a Phrydlondeb sydd ar gael ar:

<http://learners.coleggwent.ac.uk/index.php/policies1/policy>

- Eich ymrwymiad i'n gwerthoedd a'n hymddygiadau ar gyfer Myfyrwyr a nodir yn y Cod Ymddygiad, lle y ceir arweiniad clir ynglŷn â'r hyn a ddisgwyliwn gan ein dysgwyr yn ystod eu hamser yng Ngholeg Gwent.
- Eich barn ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

## **MANYLION Y POLISI**

### **Cyn ichi ymuno â ni**

Rydym yn addo rhoi gwybodaeth a chanllawiau cywir a diduedd ichi ynglŷn â'r cyrsiau sydd ar gael ar bob Campws ac mewn Addysg Gymunedol; a darparu gweithdrefn deg ac effeithlon ar gyfer prosesu eich cais.

### **Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddarparu:**

- Arweinlyfrau Coleg, a ategir gan daflenni'n ymwneud â chyrsiau unigol
- Gwefan y Coleg
- Amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu am y Coleg, er enghraifft:
  - ✓ Digwyddiadau Agored ar y Campws
  - ✓ Gweithgareddau Rhagflas
  - ✓ Teithiau o amgylch y Campws
  - ✓ Cydgysylltu rhwng Ysgolion a Chyflogwyr
- Gwybodaeth a chanllawiau cywir a rhad ac am ddim gan yr Adran Dderbyn, Gwasanaethau Dysgwyr, Tiwtoriaid Personol a staff Addysg Gymunedol ar bob Campws ac mewn Addysg Gymunedol, yn nodi:
  - ✓ Amrywiaeth llawn y cyrsiau a'r cymwysterau a gynnigir
  - ✓ Cydnabyddiaeth o'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn y gorffennol
  - ✓ Amlinelliad o gyrsiau a gofynion mynediad pob cwrs
  - ✓ Cyfleoedd a llwybrau cynnydd
  - ✓ Cyfleusterau ar gyfer dysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anabledau
  - ✓ Polisi Cyfle Cyfartal y Coleg
  - ✓ Cymorth i ddysgwyr (caplaniaeth, cwyselwyr, cymorth sgiliau ac ati)
  - ✓ Y cyfleusterau arbenigol sydd ar gael ym mhob Campws
  - ✓ Canlyniadau arholiadau a chyrchfannau dysgwyr cyfatebol
  - ✓ Rheoliadau a pholisïau'r Coleg
  - ✓ Trefniadau cofrestru
  - ✓ Amserlenni a dyddiadau tymhorau cyrsiau/rhaglenni
  - ✓ Ffioedd cyrsiau, ac achosion o beidio â chodi ffioedd pan fo hynny'n briodol
  - ✓ Y cymorth ariannol sydd ar gael, e.e. Lwfansau Cynhaliaeth Addysg, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF), Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
  - ✓ Cymorth bugeiliol trwy gyfrwng eich tiwtor personol a'r rhaglen Ysbrydoli

## Os penderfynwch ymgeisio

Rydym yn addo y bydd eich cais yn cael ei ystyried mewn modd teg ac effeithlon yn unol â'r Polisi Derbyn, sydd ar gael ar:

<http://learners.colegwent.ac.uk/index.php/policies1/policy>

- Bydd eich cais yn cael ei gydnabod o fewn deg diwrnod gwaith o'i dderbyn.
- Byddwch yn cael cynnig Cyfweiliad ar gyfer eich cwrs dewis cyntaf, neu'n cael cynnig lle yn syth yng Ngholeg Gwent, yn amodol ar fodloni'r gofynion mynediad perthnasol.
- Byddwn yn creu rhaglen ddysgu briodol wedi'i theilwra'n ôl eich anghenion ac yn seiliedig ar eich:
  - ✓ Cymwysterau presennol/disgwyliedig
  - ✓ Gwybodaeth a'ch sgiliau presennol
  - ✓ Profiad blaenorol
  - ✓ Sgrinio cychwynnol
- Yn ystod y cyfnod rhwng y cyfweiliad a'r cynnig, os yw'n briodol, a chychwyn eich cwrs byddwch yn cael eich hysbysu'n rheolaidd ynghylch:
  - ✓ Gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau'n ymwneud â'ch cwrs
  - ✓ Gweithdrefnau cofrestru
  - ✓ Unrhyw newidiadau i'ch cwrs neu eich rhaglen astudio
  - ✓ Unrhyw Ddigwyddiadau Agored a allai fod o ddiddordeb ichi
- Os byddwch yn gwneud cais i'r Gwasanaethau Myfyrwyr i beidio â thalu ffioedd eich cwrs, byddwch yn cael ateb o fewn deg diwrnod gwaith.
- Os anfonwch gais at y Gwasanaethau Myfyrwyr, bydd modd i'r Coleg roi manylion asiantaethau llety annibynnol ichi.

## Ar ôl ichi gofrestru

Rydym yn addo rhoi'r cymorth angenrheidiol ichi ar gyfer ategu'r rhaglen ddysgu yr ydych wedi'i dewis.

### Byddwn yn cyflawni hyn trwy gyfrwng y canlynol:

- Rhaglenni cynefino wedi'u teilwra, a fydd yn cynnwys gofynion a rheoliadau'r cwrs; cyfleusterau cymorth i ddysgwyr; cyngor ynghylch astudio a sgiliau hanfodol
- Mynediad at wahanol systemau TGCh
  - ✓ Y porth 'CG Connect' – mynediad at holl systemau'r coleg
  - ✓ Ap symudol:
    - Amserlenni
    - Gwybodaeth am fynychu
    - Gwybodaeth a newyddion i ddysgwyr
    - Cymorth gan y Ganolfan Ddysgu
    - Cyfoethogi
- Darparu canllawiau'n ymwneud â sesiynau tiwtorial, lle y bo hynny'n berthnasol, gan un neu fwy o'r canlynol:
  - ✓ Tiwtoriaid Personol
  - ✓ Arweinydd y Cwrs
  - ✓ Penaethiaid yr Ysgol
  - ✓ Y Tîm Ysbrydoli
  - ✓ Y Tîm Dysgu Seiliedig ar Waith
- Darparu arbenigwyr eraill, yn cynnwys:
  - ✓ Cydgysylltydd Cynhwysiant a Chaplaniaeth
  - ✓ Cwnselwyr
  - ✓ Swyddogion Cymorth Canolfan Ddysgu yn y Canolfannau Dysgu
  - ✓ Hyfforddwyr Personol
- Darparu amrywiaeth eang o adnoddau, yn cynnwys:
  - ✓ Cyfleusterau astudio Preifat/Y Ganolfan Ddysgu
  - ✓ Ffreutur
  - ✓ Cyfleusterau hamdden ar y rhan fwyaf o Gampysau

- Cymorth a chanllawiau i'ch helpu i symud yn eich blaen at waith/astudiaeth bellach, yn cynnwys:
  - ✓ Ymweld â chyflogwyr a/neu siaradwyr gwadd
  - ✓ Rhaglen profiad gwaith briodol a/neu brofiadau cysylltiedig â gwaith
  - ✓ Gwybodaeth a threfniadau cytundeb yn ymwneud ag addysg uwch
  - ✓ Cyfleusterau ffug gyfweiliadau
  - ✓ Canllawiau cyffredinol ac arbenigol yn ymwneud â gyrfaedd
  - ✓ Gwybodaeth ariannol
  
- Triniaeth deg yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Coleg Gwent, sydd ar gael ar:
 

<http://learners.coleggwent.ac.uk/index.php/policies1/policy>
  
- Staff addysgu a staff cymorth cymwys, yn cynnwys Hyfforddwyr Personol
  
- Rhaglen Ddysgu, a fydd yn arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol
  
- Adborth rheolaidd ar eich cynnydd trwy gyfrwng:
  - ✓ Cynlluniau Dysgu Unigol Electronig (eLLPs)
  - ✓ Mynediad at adroddiadau cynnydd electronig neu adroddiadau cynnydd wedi'u hargraffu
  - ✓ Adborth manwl ar aseiniadau'r cwrs o fewn deg diwrnod gwaith
  - ✓ Nosweithiau Ymgynghori ar gyfer Rhieni / yn ymwneud â Chyrsiau
  - ✓ Sesiynau tiwtorial ar gyfer cyrsiau llawn amser
  - ✓ Adroddiadau cyflogwyr ar wahân (*pan fo hynny'n briodol*)
  
- Eich cynnwys ym mhroses Sicrhau Ansawdd y Coleg trwy gyfrwng yr Holiaduron i Ddysgwyr a ddsberthir gan Arweinwyr Cyrsiau a/neu Diwtoriaid Personol. Bydd y data yma'n galluogi'r Coleg i fonitro ansawdd ei ddarpariaeth o ran bodloni anghenion cwsmeriaid. Yna, caiff crynodeb cyffredinol o ganfyddiad cwsmeriaid ei lunio'n flynyddol.
  
- Gwranddo ar eich profiadau, yn unol â Strategaeth Cynnwys Dysgwyr y Coleg, e.e.:
  - ✓ Cyfarfodydd Panel Dysgwyr y Coleg a gynhelir ar bob campws gan y Pennaeth
  - ✓ Cyfarfodydd y Fforwm Ysgolion
  - ✓ Cyfarfodydd Grwpiau Ffocws
  - ✓ Undeb y Myfyrwyr

A gweithredu yn y meysydd lle y gellir esgor o ddifrif ar welliannau.

Bydd yr addewidion hyn hefyd yn berthnasol i'r holl ddysgwyr a noddir, gyda gwybodaeth ar gael i'w cyflogwr, eu darparwr hyfforddiant neu'r Cyngor Sgiliau Sector, a all gynnwys:

- Gwybodaeth lawn am y ddarpariaeth o gyrsiau ar holl Gampysau Coleg Gwent
- Rhyddhau data perthnasol yn ymwneud â chynnydd cyflogai/hyfforddai a'r modd y cyrhaeddir targedau.

### **Dysgwyr Addysg Uwch**

Ar gyfer rhaglenni Addysg Uwch breiniol, bydd y Coleg yn gweithio gyda'r Sefydliad Addysg Uwch perthnasol a bydd yn cyflawni'i rwymedigaethau contractiol i fyfyrwyr ac yn cydymffurfio â'i ymrwymadau dan gyfraith defnyddwyr fel y nodir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud hynny, bydd y Coleg a'r Sefydliadau Addysg Uwch yn gweithio er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau fel newidiadau sylweddol yn y modd y caiff y cwrs ei gyflwyno neu ddod â'r cwrs i ben. Mae gan y Coleg weithdrefnau ar waith ar gyfer ymateb i'r amgylchiadau hyn. Bydd y gweithdrefnau hyn yn lliniaru'r effaith bosibl ar y myfyrwyr ac yn cydnabod anghenion gwahanol ei gorff myfyrwyr amrywiol.

Ar gyfer rhaglenni anfreiniol, bydd y Coleg yn cyflawni ei rwymedigaethau contractiol i fyfyrwyr ac yn cydymffurfio â'i ymrwymadau dan gyfraith defnyddwyr fel y nodir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud hynny, bydd y Coleg yn gweithio er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau fel newidiadau sylweddol yn y modd y caiff y cwrs ei gyflawni neu ddod â'r cwrs i ben. Mae gan y Coleg weithdrefnau ar waith ar gyfer ymateb i'r amgylchiadau hyn. Bydd y gweithdrefnau hyn yn lliniaru'r effaith bosibl ar y myfyrwyr ac yn cydnabod anghenion gwahanol ei gorff myfyrwyr amrywiol.

### **Ar ôl ichi gwblhau eich rhaglen astudio**

Rydym yn addo eich cynorthwyo ym mhob ffordd y gallwn i symud yn eich blaen yn ddidrafferth at waith a/neu astudiaeth bellach.

### **Byddwn yn cyflawni hyn trwy gyfrwng:**

- Proses gynnydd/camu ymlaen
- Rhyddhau dogfennau'n ymwneud â'r canlynol:
  - ✓ Y cymwysterau yr ydych wedi'u hennill
  - ✓ Datblygiadau personol a bugeiliol, er enghraifft fel y nodir yn y Cynllun Dysgu Unigol electronig
- Darparu geirdaon angenrheidiol ar gyfer cyflogwyr/sefydliadau addysgol posibl
- Cydgysylltu gydag asiantaethau priodol y Llywodraeth a all gynorthwyo gyda materion ariannol/chwilio am waith.



## Rhoi gwybod i'r gymuned

Rydym yn addo y bydd manylion am y darpariaethau a'r cyfleusterau a gynigiwn i bob dysgwr yng Ngholeg Gwent ar gael i'r Gymuned trwy gyfrwng:

- Gwefan y Coleg
- Cyhoeddi Arweinlyfrau Coleg (ceir copïau yng Nghanolfan Ddysgu pob Campws)
- Digwyddiadau Agored
- Nosweithiau i Rien i a Chyflogwyr
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau gyrfa mewn ysgolion lleol ac ati
- Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau
- Hysbysebu cyrsiau
- Gweithgareddau rhagflas

Hefyd, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau arholiadau, gwybodaeth am gyrchfannau dysgwyr a gwybodaeth o fath arall yn ôl gofyn Llywodraeth Cymru.

## Disgwyliadau

Mae'r Siarter Myfyrwyr hon yn nodi cyfres o addewidion a safonau y gallwch eu disgwyl gan Goleg Gwent. Yn dâl am hyn, disgwyliwn i'n dysgwyr gydnabod eu cyfrifoldebau fel y nodir yn y Cod Ymddygiad, y bydd yn ofynnol i chi ei arwyddo ar gychwyn eich cwrs.

## Byddwn yn cyflawni hyn trwy gyfrwng y canlynol:

- Gwneud ein dysgwyr yn ymwybodol o'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt, fel y nodir yn y Cod Ymddygiad
- Y gweithdrefnau a restrir yn y Siarter hon
- Cytundebau Dysgu Myfyrwyr Unigol (ISLA) wedi'u harwyddo rhwng y Coleg a phob dysgwr
- Rhaglen Diwtorial y Coleg
- Polisi Disgyblu Coleg Gwent, yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:
  - ✓ Patrymau Mynychu
  - ✓ Codau Ymddygiad Priodol
  - ✓ Camymddwyn Difrifol

Ar gael ar: <http://learners.coleggwent.ac.uk/index.php/policies1/policy>

## **Gweithdrefnau**

### **Cwynion**

Bydd gan fyfyrwyr a chanddynt gŵyn yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y Coleg fynediad at broses gam wrth gam er mwyn datrys y mater. Gellir cael copïau o'r Weithdrefn Gwyno yn Nerbynfa'r Campws, neu ar y Porth Dysgwyr ar:

<http://learners.coleggwent.ac.uk/index.php/policies1/policy>

### **Gweithdrefn apelio yn erbyn asesiadau/arholiadau**

Bydd gan ddysgwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn canlyniad asesiad/arholiad fynediad at broses gam wrth gam er mwyn datrys yr ymholiad. Gellir cael copïau o'r Weithdrefn Apelio yn Nerbynfa'r Campws, neu ar Moodle ar:

<http://learners.coleggwent.ac.uk/index.php/policies1/policy>